



Datganiad Blynyddol ynghylch Gonestrwydd Ymchwil Tachwedd 2023

Rhagair

1. Diben Prifysgol Caerdydd yw creu a rhannu gwybodaeth, ac addysgu er budd pawb. Wrth aros am lansiad strategaeth sefydliadol newydd o dan arweiniad ein His-ganghellor newydd, ein gweledigaeth o hyd yw bod gyda'r Prifysgolion sy'n arwain y byd, yn rhagorol o ran ymchwil ac yn addysg ragorol, wedi'i hysgogi gan greadigrwydd a chwilfrydedd, sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, i Gymru, i'r DU, ac i'r byd ([Y Ffordd Ymlaen, 2018-2023](#)).
2. Mae ymchwil yn rhan greiddiol o'n hunaniaeth sefydliadol, ac mae'r Brifysgol yn dyheu i fod gyda'r gorau o ran creu gwybodaeth ac offer newydd, a hynny yng nghyd-destun byd ymchwil sy'n fywiog ac yn gynhwysol.
3. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ('REF') 2021, cadarnhawyd bod 90% o'n hymchwil gyda'r gorau yn y byd neu'n rhagorol yn rhyngwladol. Mae hyn yn golygu ein bod ymhlith yr 20 prifysgol orau yn y DU am safon gyffredinol ein hymchwil. Mae'r Brifysgol yn ceisio gwella ei safle ymhellach ac yn cofleidio'r her hon ar lwyfan ryngwladol sy'n fwyfwy cystadleuol.
4. Mae Gonestrwydd Ymchwil, moeseg ac ymchwil agored yn rhan hanfodol o'n gweledigaeth ac mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal egwyddorion y [Concordat i Gefnogi Gonestrwydd Ymchwil](#) ('Concordat') ac i gefnogi ein hymchwilyr i gynnal ymchwil i'r safonau cywirdeb uchaf.

Y diben a'r cyd-destun

4. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau'n cael eu cymryd i gefnogi safonau uchel o Gonestrwydd Ymchwil, mae'r Concordat yn ei gwneud yn ofynnol bod pob cyflogwr ymchwilyr yn paratoi ac yn cyhoeddi datganiad blynyddol ynghylch Gonestrwydd Ymchwil ('Y Datganiad Blynyddol'), sy'n rhoi'r canlynol:
 - 4.1. Crynodeb o gamau a gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw er mwyn cynnal a chryfhau'r broses o ddeall a defnyddio Gonestrwydd Ymchwil;
 - 4.2. Sicrwydd bod y prosesau sydd yn eu lle i ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad;
 - 4.3. Datganiad lefel uchel ynghylch unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn o ran ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys data ar nifer yr ymchwiliadau;

- 4.4. Datganiad ynghylch yr hyn y mae'r Brifysgol wedi'i ddysgu yn sgil unrhyw ymchwiliadau ffurfiol i gamymddwyn ymchwil a gynhaliwyd, gan gynnwys pa wersi a ddysgwyd i atal yr un math o ddigwyddiad rhag digwydd eto; a
 - 4.5. Datganiad ynghylch sut mae'r Brifysgol yn creu ac yn ymgorffori diwylliant ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus i roi gwybod am achosion o gamymddwyn.
5. Dyma seithfed Datganiad Blynyddol y Brifysgol. Pan gaiff ei gymeradwyo gan grwpiau a phwyllgorau perthnasol y Brifysgol, bydd y Datganiad Blynyddol ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan a darperir dolen i Ysgrifenyddiaeth y Concordat. Mae hen Ddatganiadau Blynyddol y Brifysgol ar gael i'r cyhoedd o hyd ar ein tudalen we "[Gonestrwydd Ymchwil a'i Lywodraethu](#)".

Y cyfnod y mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn berthnasol iddo

6. Mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn crynhoi'r camau a'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023 er mwyn cryfhau Gonestrwydd Ymchwil. Mae hefyd yn rhoi'r sicrwydd a'r datganiadau sy'n ofynnol ar gyfer camymddygiad dros yr un cyfnod.

Camau gweithredu a gweithgareddau (Blwyddyn Academaidd 2022/2023)

Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, mae'r Brifysgol wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau i helpu i gefnogi a chryfhau Gonestrwydd Ymchwil. Crynhoir y gweithgareddau allweddol yn ystod y cyfnod hwn isod.

7. Cyhoeddi 'Cynllun Gweithredu Gonestrwydd Ymchwil' sefydliadol
 - 7.1. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Brifysgol ei [Chynllun Gweithredu Gonestrwydd Ymchwil](#) cyntaf i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn ganlyniad i adolygiad mewnol manwl ac ymarfer myfyrio dan arweiniad ein tîm Gonestrwydd Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg ('RIGE'), gan ddefnyddio [Offeryn Hunanasesu UKRIO](#). Nododd yr adolygiad lawer o enghreifftiau o arfer da wrth gefnogi Gonestrwydd Ymchwil a chadarnhaodd fod y Brifysgol yn bodloni neu'n rhagori ar ddisgwyliadau sector cyfan ar draws ystod o feysydd. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad hefyd rai meysydd o ymarfer, polisi a diwylliant ymchwil a fyddai'n elwa ar welliant er mwyn cryfhau ac ymgorffori Gonestrwydd Ymchwil ymhellach.
 - 7.2. Mae cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu yn rhan o'n taith ragweithiol tuag at wella amlygrwydd ein disgwyliadau Gonestrwydd Ymchwil a chryfhau'r gefnogaeth a ddarparwn yn y maes hwn. Mae hefyd yn cynrychioli newid sylweddol yn ein hymagwedd at Onestrwydd Ymchwil, gan symud tuag at system o integreiddio a chydweithio gwell, a ategir gan y cysyniad o gydgyfrifoldeb a dealltwriaeth. Y gobaith yw y bydd yr ymagwedd hwn yn helpu i sicrhau bod Gonestrwydd Ymchwil wedi'i wreiddio yn yr ecosystem ymchwil, yn berthnasol i ymchwilwyr, ac yn y pen draw yn helpu i feithrin
 - 7.3. amgylchedd lle mae arferion ymchwil da nid yn unig yn cael eu galluogi, ond yn cael eu gwerthfawrogi.

- 7.4. Bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i adrodd i'n Pwyllgor Cywirdeb Ymchwil Agored a Moeseg ('ORIEC') a'i grynhoi mewn Datganiadau Blynyddol perthnasol. Bydd y Cynllun Gweithredu cyhoeddedig hefyd yn cael ei god lliw bob blwyddyn i nodi pa gamau sydd wedi'u cyflawni a'r rhai lle y gwnaed cynnydd sylweddol. Bydd yr ymarfer codio lliw cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2024, flwyddyn ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu.
- 7.5. Ar ddyddiad paratoi'r Datganiad Blynyddol hwn, mae 76% o'r camau gweithredu oedd â dyddiad targed ar neu cyn Medi 2023 wedi'u cwblhau neu ar y gweill a disgwylir eu cwblhau'n fuan. Mae naw (9) o gamau gweithredu i'w cwblhau nad ydynt wedi'u cychwyn eto a/neu sydd wedi'u gohirio. Mae hyn oherwydd amrywiaeth o ffactorau mewnol ac allanol, gan gynnwys:
- yr angen i ail-flaenoriaethu adnoddau a chefnogaeth i feysydd gweithgaredd eraill, lle bo angen; a
 - mynd ar drywydd cyfleoedd cydweithredol sydd wedi codi gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol a allai wella effeithlonrwydd a chynhyrchu canlyniadau gwell i'n cymuned ymchwil.
- 7.6. Mae ORIEC yn fodlon â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu hyd yma (yn enwedig o ystyried ei ehangder a'i natur uchelgeisiol) ac mae'n falch bod ei staff yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn weithredol â rhanddeiliaid allanol ac yn gallu addasu i flaenoriaethau sy'n newid a sicrhau bod cymorth yn cael ei ganolbwyntio lle mae ei angen fwyaf.

8. Ymweliad a gweithdy Pwyllgor y DU ar Onestrwydd Ymchwil ('UK CORI').

- 8.1. Ar 24 Ebrill 2023, croesawodd y Brifysgol aelodau o UK CORI i'w hadeilad [sbarc/spark](#) a ddatblygwyd yn ddiweddar (dyma oedd lleoliad cyfarfod UK CORI ym mis Ebrill). Yn dilyn cyfarfod UK CORI, cynhaliodd cydweithwyr yn y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') Weithdy Strategaeth ar y cyd a oedd yn cynnwys cyfres o gyflwyniadau, trafodaeth bord gron, a chinio rhwydweithio. Roedd y rhai a fynychodd y gweithdy yn cynnwys aelodau UK CORI a chynrychiolwyr o UKRI, CCAUC, a Sefydliadau Addysg Uwch Cymru.
- 8.2. Yn ystod y gweithdy, rhoddodd ein 'Deon Ymchwil yr Amgylchedd a Diwylliant' a 'Swyddog Gonestrwydd Ymchwil a Llywodraethu' gyflwyniadau am ein hymagwedd at Gonestrwydd Ymchwil a diwylliant ymchwil a mentrau a heriau penodol yn y maes hwn. Roedd y drafodaeth bord gron a ddilynodd yn gyfle i bawb a oedd yn bresennol rannu arfer gorau a thrafod heriau penodol o ran gonestrwydd a diwylliant yng Nghymru. Dywedodd UK CORI y canlynol am y cyfarfod hwn ar ei wefan:

"Cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Gonestrwydd Ymchwil y DU ym mis Ebrill 2023 ym Mhrifysgol Caerdydd, dan lywyddiaeth yr Athro Karin Wahl-Jorgensen, Deon Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil, a Harriet Barnes, Cyfarwyddwr Polisi a Chyllido, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

...rydym yn falch hefyd o gael ymuno â phobl o brifysgolion ledled Cymru sy'n weithgar wrth gefnogi Gonestrwydd Ymchwil yn eu sefydliadau. Clywsom am y dirwedd addysg uwch yng Nghymru – grŵp amrywiol o brifysgolion gyda phwyslais cryf cyffredin ar ymgysylltu cymunedol a dinesig. Disgrifiodd yr Athro

Wahl-Jorgenson ac Emma Gore, Swyddog Gonestrwydd Ymchwil a Llywodraethu, sut mae'r brifysgol yn gweithio i gryfhau diwylliant ymchwil cadarnhaol - 'rhagamod ar gyfer ymchwil ragorol'. Disgrifiodd eraill y gweithgareddau yn eu prifysgolion eu hunain, gyda thrafodaeth ar nifer o faterion – sut mae rhagoriaeth wrth gefnogi a gwreiddio Gonestrwydd Ymchwil yn cael ei chydabod a'i gwobrwyo; gwerth deunydd Gonestrwydd Ymchwil disgyblaeth-benodol; rôl hyfforddiant; pwysigrwydd cefnogaeth uwch swyddogion. Gwerthfawrogodd y pwyllgor amser, brwdfrydedd a dirnadaeth y cyfranogwyr yn fawr iawn, a chydabu unwaith eto bwysigrwydd rhannu arfer da, a chael fforymau traws-sefydliadol er mwyn trafod”.

8.3. Mae'r Brifysgol yn edrych ymlaen at ymgysylltu ag UK CORI yn y dyfodol a chlywed mwy am ei mentrau a'i gweithgareddau arfaethedig.

9. Diwygiad o God Ymarfer Gonestrwydd Ymchwil a Llywodraethu ('RI CoP')

9.1. Mae'r Brifysgol wedi diwygio ei RI CoP i adlewyrchu pynciau a safonau arfer da sy'n newid a/neu sy'n dod i'r amlwg, ynghyd ag adborth gan amrywiaeth o randdeiliaid y Brifysgol. Mae'r diwygiadau hefyd yn mynd i'r afael ag ystod o welliannau sy'n ymwneud â pholisi a nodwyd drwy'r adolygiad mewnol y cyfeirir ato yn Adran 7.1.

9.2. I'ch atgoffa, yr RI CoP yw ein fframwaith sefydliadol (polisi) ar gyfer Gonestrwydd Ymchwil. Mae'n berthnasol i bawb sy'n ymwneud ag ymchwil yn y Brifysgol ac fe'i cynlluniwyd i hyrwyddo arfer ymchwil da trwy gydol y cylch bywyd ymchwil ac i helpu i sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cyflawni safonau uchaf Gonestrwydd Ymchwil.

9.3. Mae'r RI CoP diwygiedig bellach yn cynnwys a disgwyliadau newydd yn y meysydd canlynol:

- Cydweithio;
- Cynnal ymchwil dramor, “Ymchwil Ddibynadwy” a rhyngwladoli;
- Moeseg cyhoeddi, gan gynnwys arfer gorau wrth gynnal adolygiad cymheiriaid, swyddogaethau golygyddol a dewis cyhoeddwr; a
- Codi pryder ynghylch Gonestrwydd Ymchwil.

Bu hefyd amrywiaeth o welliannau cynnwys a oedd yn bodoli eisoes, ynghyd â llawer o welliannau cyfeirio (o ran adnoddau ychwanegol perthnasol a chymorth a mentrau mewnol/allanol). Bydd y prif ddiwygiadau'n cael eu cyfleu i grwpiau rhanddeiliaid allweddol (a'u hintegreiddio ar draws llifoedd gwaith eraill) yn ystod Hydref 2023.

10. Rhaglen Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil Ar-lein ('Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil')

10.1. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, cwblhaodd tua 950 aelod o staff a 3,200 o fyfyrwyr (gan gynnwys myfyrwyr PGR, PGT ac israddedig) Hyfforddiant RI y Brifysgol. I'ch atgoffa, mae cwblhau ein Hyfforddiant RI yn orfodol i'r holl Staff Academaidd (oni bai ei fod wedi'i eithrio¹) ac yn orfodol i bob myfyriwr sy'n dilyn rhaglenni astudio Doethurol, MRes neu

¹ Mae gan y Brifysgol broses cais am eithriad y gall Ysgolion ei defnyddio i ofyn am eithriad ar gyfer staff penodol ar gontractau T&S nad ydynt yn ymwneud â gweithgarwch ymchwil. Mae yna broses lem y mae angen i Ysgolion ei dilyn ac mae pob cais eithrio yn cael ei adolygu (ac os yw'n briodol, ei gymeradwyo) gan ORIEC.

MPhil. Mae cwblhau'r hyfforddiant hefyd yn elfen orfodol o brosesau ymchwil mewnol amrywiol eraill ac fe'i hargymhellir yn fawr i unrhyw un arall sy'n ymwneud ag ymchwil.

10.2. Fel y crybwyllwyd mewn Datganiadau Blynyddol blaenorol, mae sicrhau bod yr holl unigolion y mae'r hyfforddiant ar onestrwydd ymchwil yn orfodol iddynt (ynghyd â gweithgarwch monitro ac adrodd) yn cwblhau'r Hyfforddiant Unigolyn Cyfrifol yn her ac yn dasg weinyddol sylweddol. Mae trafodaethau mewnol yn mynd rhagddynt ynghylch sut y gellir gwella hyn, yn enwedig o ystyried maint a strwythur y Brifysgol.

10.3. Cafwyd nifer fach o ddiweddariadau i'r hyfforddiant ar Onestrwydd Ymchwil yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, yn bennaf i fynd i'r afael ag URLau sydd wedi dyddio, gwella cyfarwyddiadau i ddefnyddwyr a mynd i'r afael â gwendidau technegol. Mae rhai newidiadau eraill i'r deunydd RI Training yn cynnwys:

- Newid rhai cwestiynau cwis/asesu i wella eglurder (yn dilyn adborth gan staff a myfyrwyr);
- Disodli ein diagram strwythur llywodraethu Gonestrwydd Ymchwil, i adlewyrchu rhai gweithgorau newydd a newidiadau i enwau; ac
- Ychwanegu logo tanysgrifiwr UKRIO i adran "Gonestrwydd Ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd" yr hyfforddiant.

11. Moeseq Ymchwil

11.1. Bu llawer iawn o weithgarwch gyda'r nod o ddatblygu ein hymagwedd at adolygu moesegol a chefnogi ein Pwyllgorau Moeseq Ymchwil Ysgolion ('SRECs') a'n cymuned ymchwil yn well. Dyma rai enghreifftiau yn unig o weithgarwch perthnasol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023:

- **Cymeradwyo sianeli adolygu moesegol newydd ar gyfer gweithgaredd Israddedig a PGT**

Yn dilyn darn helaeth o waith a gynhaliwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen traws-Brifysgol, mae ORIEC wedi cymeradwyo cyfres o sianeli adolygu moesegol (opsiynau) y gall SRECs eu defnyddio ar gyfer prosiectau UG/PGT sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, data dynol neu ddeunydd dynol. Mae hyn yn cynnwys dwy sianel adolygu moesegol newydd sy'n galluogi craffu moesegol ar sail modiwl cyfan, ar yr amod bod paramedrau penodol yn cael eu bodloni a bod dogfennau'n cael eu defnyddio. Nod y sianeli newydd hyn yw darparu ateb hyblyg sy'n seiliedig ar risg, y gellir ei reoli a fydd nid yn unig yn gwella cymesuredd ac yn helpu i liniaru heriau llwyth gwaith SREC, ond hefyd yn helpu i sicrhau bod moeseg yn cael ei hintegreiddio i addysgu.

Mae cynllun peilot dwy flynedd o'r sianeli adolygu moesegol newydd bellach wedi dechrau, wedi'i ategu gan ddogfennau templed cymeradwy a gofynion proses, i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Rhagwelir y bydd y broses a'r dogfennau ategol yn cael eu mireinio dros y cyfnod peilot, wedi'u llywio gan unrhyw heriau yn ystod y gweithredu a'r adborth gan y gymuned ymchwil.

- **Adolygiad o Adroddiadau Moeseq Blynyddol a dogfennau ategol**

Cafodd yr Adroddiadau Moeseq Blynyddol a'r dogfennau ategol a dderbyniwyd gan SRECs eu hadolygu gan RIGE a rhoddwyd crynodeb i ORIEC ym mis Mehefin 2023. Mae'r adroddiadau'n cadarnhau i fwy na 2,500 o geisiadau gael eu hadolygu yn unol â gweithdrefnau SREC y Brifysgol yn

ystod blwyddyn galendr 2022, a chafodd 97% o'r ceisiadau farn foesebol ffafriol yn y pen draw. Yn sgil y Broses Flynyddol ynghylch Adrodd Moesebol roedd RIGE wedi adnabod nifer o themâu cyffredin a meysydd y mae angen rhoi sylw pellach iddynt, ynghyd ag arferion gorau ac adnabod materion neu heriau penodol i SREC. Mae RIGE wedi ymgysylltu â SRECs drwy gyfathrebiadau pwrpasol a gweminar pob-SREC a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023 i sicrhau bod y themâu a'r materion cyffredin a nodwyd yn cael eu cyfleu a'u trafod.

- **Cwmpasu cychwynnol system foesebol ar-lein**

Mae ²prosiect Gwasanaeth Ymchwil y Dyfodol RTS y Brifysgol ar hyn o bryd yn archwilio datrysiad ar-lein i reoli ein gweithgaredd adolygu moesebol, ochr yn ochr â swyddogaethau eraill sy'n ymwneud ag ymchwil. Er nad oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud, mae cwmpas cychwynnol ein gofynion sefydliadol yn y maes hwn (wedi'i lywio gan ymarfer mapio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol perthnasol) wedi'i gynnal drwy gydol Blwyddyn Academaidd 2022/2023. Mae Gwasanaeth Ymchwil y Dyfodol yn y broses o gwblhau ymarfer caffael ar gyfer system ar-lein i reoli ystod o swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymchwil, a gofynnir am gymeradwyaeth y Brifysgol erbyn mis Chwefror 2024.

- **Penodi Cadeirydd ac Aelodau ar gyfer y 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen Moesebol a Data sydd ar Gael i'r Cyhoedd' newydd.**

Bydd y Grŵp hwn yn cyfarfod drwy gydol Blwyddyn Academaidd 2023/2024 a'i nod yw helpu i sicrhau bod dull y Brifysgol o adolygu prosiectau'n foesebol gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd yn unig yn briodol ac yn cydbwysu'r angen am system adolygu foesebol gadarn, tra'n gymesur â risg ac anghenion y Brifysgol.

- **Gweithdrefn Weithredu Safonol y Brifysgol ('SOP') ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys recordiadau sain/gweledol o gyfranogwyr ymchwil dynol**

Mae SOP lefel Prifysgol wedi'i ddatblygu i ddarparu fframwaith cymeradwy ar gyfer defnyddio recordiadau sain a/neu weledol o gyfranogwyr ymchwil dynol. Lle y caiff ei ddefnyddio, bydd y SOP hwn yn rhoi sicrwydd bod ystyriaeth foesebol briodol wedi'i rhoi i'r defnydd o recordiadau a bod y risgiau cyffredin sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u lliniaru'n briodol. Yn ogystal â helpu i ddiogelu cyfranogwyr ymchwil, mae'n debygol y bydd defnyddio'r SOP hwn yn cyflymu'r broses adolygu moesebol ar gyfer ymgeiswyr SREC gan y bydd yn galluogi SRECs i ganolbwyntio ar risgiau moesebol eraill.

11.2. Ar y cyd â'r gwaith a wneir yn ganolog, gwnaed llawer o waith yn lleol gan Gadeiryddion ac Aelodau'r SREC a staff cymorth lleol i helpu i wella systemau adolygu moesebol presennol y Brifysgol ac i gefnogi ymchwilwyr i gyrraedd y safonau moesebol uchaf. Isod ceir rhai enghreifftiau o weithgarwch sydd wedi digwydd yn lleol:

- Coladu adborth/ymateb i ymarferion ymgynghori sy'n gysylltiedig â gwella systemau adolygu moesebol y Brifysgol.
- Darparu gwirfoddolwyr i eistedd ar wahanol Grwpiau Gorchwyl a Gorffen y Brifysgol sy'n gysylltiedig â'r broses adolygu moesebol.

² "Gweddnewid Gwasanaethau" - Rhaglen waith wedi ei hanelu at wneud gwelliannau ar draws sawl maes blaenoriaeth, gyda nifer o brosiectau wedi eu cwblhau ac eraill ar y gweill. Bwriad y prosiectau yw adolygu a gwella prosesau'r Brifysgol a lleihau aneffeithlonrwydd, gwella aliniad timau sy'n dibynnu ar ei gilydd, a sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg a galluoedd digidol.

- Creu Protocolau Moeseg/Gweithdrefnau Gweithio Safonol ar gyfer prosiectau ymchwil sy'n bodloni "maen prawf adolygu llawn" penodol.
- Rhoi proses Cais Grŵp ar waith ar gyfer adolygiadau moesegol.
- Datblygu canllawiau lleol a/neu ddisgyblaethol ar y broses adolygu moesegol a disgwyliaidau'r SRECs.
- Sesiynau gwybodaeth/codi ymwybyddiaeth i staff a myfyrwyr ar broses yr adolygiadau moesegol a'r materion moesegol cyffredin sy'n codi yn y ddisgyblaeth.
- Ymgysylltu â chydweithwyr addysgu a dysgu i ddeall yn well y math o brosiectau myfyrwyr a gynhelir yn yr Ysgol, y risg sy'n gysylltiedig â phrosiectau o'r fath a pha opsiynau adolygu moesegol y gellid eu gweithredu'n lleol i adolygu'r prosiectau hyn yn briodol.

12. Camymddygiad Ymchwil

12.1. Mae'r Brifysgol wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr a diweddariad o'i Pholisi a'i Gweithdrefn ar gyfer Camymddygiad Ymchwil Academaidd i wella'r aliniad â'r diffiniad "Camymddygiad Ymchwil" a geir yn y Concordat ac i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adolygiad mewnol a grybwyllwyd yn Adran 7.1 a chanllawiau perthnasol o'r ddogfen ddiweddar cyhoeddi gweithdrefnau camymddwyn ymchwil templed UKRIO. Mae'r Polisi/Gweithdrefn ddiwygiedig ar gael ar ein tudalen we "[Camymddygiad Ymchwil Academaidd](#)".

12.2. Isod mae rhai o'r diwygiadau a wnaed i'r Polisi/Gweithdrefn:

- Ychwanegu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i bawb sy'n ymwneud ag ymchwiliad (gan gynnwys achwynwyr ac ymatebwyr)
- Gwell eglurder ynghylch sut mae'r Polisi/Gweithdrefn yn rhyngweithio â gweithdrefnau allweddol eraill y Brifysgol gan gynnwys gweithdrefnau cwyno/disgyblu staff.
- Ychwanegu cynnwys newydd sy'n ymwneud ag "arfer ymchwil amheus", "awduriaeth" a chyfnodolion rheibus. Roedd yr ychwanegiadau hyn hefyd o ganlyniad i wersi a ddysgwyd ac ymholiadau/materion a gododd yn ystod y Flwyddyn Academaidd.

13. Ymchwil Clinigol

13.1. Mae Swyddfa Ymchwil ar y Cyd Caerdydd (JRO)³ yn parhau i ddatblygu ac esblygu. Mae sefydlu strwythurau llywodraethu, adrodd ac atebolrwydd y JRO wedi bod yn brif ffocws yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae'r strwythur llywodraethu, gan gynnwys 'Grŵp Llywodraethu Treialon Clinigol', 'Grŵp Rheoli Ansawdd' a'r Grŵp Llywodraethu Ymchwil ar y Cyd ('JRGG'), yn galluogi datblygu system sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd ar y cyd a gwell trefniadau rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a materion llywodraethu ymchwil clinigol cyffredin. Mae adroddiadau uwch gan JRGG i ORIEC ac Awdurdod Gweithredol Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd lechyd yn sicrhau bod uwch reolwyr yn goruchwylio gweithgarwch ar y cyd.

³ Partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a lanswyd ym mis Medi 2021.

13.2. Fel yr adroddwyd o'r blaen, ym mis Mai 2022, cynhaliodd NHS Digital archwiliad o dreial 'AML 15' y Brifysgol, gan ganolbwyntio ar Drosoglwyddo Gwybodaeth, Rheoli Mynediad a Dinistrio Data. Cyhoeddwyd yr adroddiad archwilio terfynol gan NHS Digital (NHS England bellach) ym mis Gorffennaf 2023 ac mae ar gael i'r cyhoedd [yma](#). Sefydlwyd Gweithgor traws-Brifysgol ym mis Mawrth 2023 i adolygu a gwella'r ffyrdd y mae'r Brifysgol yn rheoli asedau data Digidol y GIG (ar gyfer astudiaethau a reolir y tu allan i Uned Treialon Clinigol y Brifysgol) a throsolwg o'r Pecyn Cymorth Diogelu Data canolog a'r Gofrestr Gwybodaeth am Asedau. Mae gwaith i gryfhau'r modd y mae'r Brifysgol yn goruchwyllo ac yn diogelu data Digidol y GIG i'w gwblhau yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024.

13.3. Dros y Flwyddyn Academaidd nesaf, mae gwaith blaenoriaeth yn cynnwys cryfhau canllawiau a gweithdrefnau presennol mewn meysydd allweddol o lywodraethu ymchwil glinigol a chanolbwyntio ar ddatblygu canllawiau newydd, os nad oes gweithdrefn yn bodoli. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys adolygiad o ddiffyg cydymffurfio/adrodd am ddigwyddiadau a datblygu canllawiau ar reoli materion caniatâd mewn ymchwil glinigol.

13.4. Mae synergeddau sylweddol rhwng y wybodaeth sy'n ofynnol gan y timau Cydymffurfio â Ddeddf Meinweoedd Dynol a Llywodraethu Ymchwil, ac felly'r wybodaeth sy'n llifo rhwng y ddau dîm. Mae manyleb ar gyfer cronfa ddata Rheoli Meinweoedd Dynol ac Ymchwil a rennir wedi'i chwblhau. Mae gwaith i fod i ddechrau ar ddatblygu elfen Meinweoedd Dynol y gronfa ddata hon yn hydref 2023 (Cam 1), a bydd yr elfennau Llywodraethu Ymchwil (cam 2) yn dilyn.

14. Ymchwil a Llywodraethu mewn perthynas â'r Deddf Meinweoedd Dynol (HTA).

14.1. Mae SOPs y Brifysgol ar gyfer Ymchwil i Feinweoedd Dynol wedi'u hadolygu, eu diweddarau a'u hailstrwythuro i sicrhau bod hyfforddiant yn y gweithdrefnau hyn yn berthnasol i'r astudiaeth/casgliad ac i leihau'r baich hyfforddi cyffredinol wrth i SOPs newid. Yn flaenorol, roedd yn ofynnol i bawb a oedd yn defnyddio meinwe ddynol ddarllen a dilyn **holl** SOPs y Brifysgol ar gyfer Ymchwil i Feinweoedd Dynol. Er bod yr SOPs hyn yn cwmpasu gofynion rheoleiddio'r HTA sy'n gysylltiedig â phob gweithdrefn, nid yw'r holl weithdrefnau'n berthnasol i bob casgliad o ddeunydd perthnasol. Ochr yn ochr â'r gyfres o SOPs gorfodol, bydd y Prif Ymchwilwyr nawr yn penderfynu pa rai o'r SOPs ychwanegol sy'n berthnasol ac felly'n orfodol ar gyfer yr astudiaeth/casgliad.

14.2. Mae adran ragarweiniol yr SOP ar gyfer Ymchwil i Feinweoedd Dynol wedi'i hehangu i gynnwys gwybodaeth i helpu ymchwilwyr i lywio'r ffordd drwy ofynion rheoleiddio sy'n ymwneud â HTA a HTA drwy gydol astudiaeth, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a chyfeirio ar gyfer meysydd a reolir gan dimau Gwasanaethau Proffesiynol eraill a ddefnyddir yn aml gan ymchwilwyr y mae eu gwaith yn dod o dan yr HTA, megis adolygiad moesegol a chytundebau trosglwyddo deunydd.
- Rhestr o ddogfennau a gynhyrchwyd gan Dîm Cydymffurfiaeth yr HTA i'w defnyddio gan ymchwilwyr, gan gynnwys lle y gellir dod o hyd i'r dogfennau a phryd y mae'r dogfennau at ddefnydd gorfodol, fel canllaw neu i'w defnyddio fel templedi.

- Rhestrau gwirio a siartiau llif yn manylu ar y camau gweithredu y mae eu hangen ar yr ymchwilydd cyn i'r astudiaeth ddechrau, yn ystod yr astudiaeth a chyn i'r astudiaeth ddod i ben.
- Rhestr gynhwysfawr wedi'i choladu o'r holl gofnodion sydd eu hangen ar gyfer pob gweithdrefn y manylir arni yn yr SOP ar gyfer Ymchwil i'r Meinweoedd Dynol.

14.3. Cymeradwywyd yr SOP wedi'i ddiweddarau ar gyfer Ymchwil i'r Meinweoedd Dynol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ymchwil i'r Meinweoedd Dynol gan y Pwyllgor Safonau Meinweoedd Dynol ym mis Mai 2023.

14.4. Yn ogystal â'r gweithgarwch uchod, mae adran Archwilio Mewnol Prifysgol Caerdydd wedi cynnal adolygiad sy'n canolbwyntio ar y sicrwydd a roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac yn y pen draw i'r Cyngor (drwy strwythur is-bwyllgorau'r Brifysgol) ynghylch cydymffurfio â'r HTA (yn ogystal â Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986). Gwnaeth yr adolygiad argymhellion mewn pum maes, gan gynnwys cydnabod yr angen i ailddatblygu ac ehangu'r gronfa ddata ar-lein sy'n cynnwys manylion yr holl astudiaethau/casgliadau meinwe dynol yn y brifysgol. Roedd y darn hwn o waith eisoes ar y gweill a bellach mae ganddo fwy o flaenoriaeth yn dilyn yr adolygiad hwn. Pan fydd y gofynion ar gyfer ailddatblygu'r gronfa ddata ar-lein wedi'u penderfynu, cytunir ar amserlenni ar gyfer cwblhau.

14.5. Mae model gwasanaeth a chynllun 3 blynedd hefyd wedi'u datblygu gan Dîm Cydymffurfiaeth yr HTA i ddogfennu cwmpas y gwasanaeth yn ffurfiol a monitro'r gwasanaeth a ddarperir.

15. Ymchwil a Llywodraethu mewn perthynas ag Anifeiliaid

15.1. Ym Mlwyddyn Academaidd 2022/2023 bu datblygiad o ran llywodraethu a goruchwyllo gwaith anifeiliaid nad yw'n cael ei reoleiddio gan Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 ('ASP'). Penderfynwyd y byddai Is-grŵp Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol y Brifysgol yn diwygio ei gylch gorchwyl i ymgorffori'r arolygiaeth foesegol o'r gwaith hwn. Mae'n bosibl y bydd angen gwahodd arbenigwyr i'r Is-grŵp yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y broses adolygu ar gyfer cynigion nad ydynt yn rhai ASPA.

15.2. Yn ystod y Flwyddyn Academaidd hon, gwnaed cryn ymdrech ar brosiect gwella gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Biolegol, sy'n rhan o astudiaeth dichonoldeb ehangach ar gyfer y Brifysgol. Sefydlwyd grŵp llywio i gefnogi'r prosiect hwn, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau i gyfleusterau a'r seilwaith sy'n cefnogi ymchwil anifeiliaid.

15.3. Mae'r Brifysgol wedi dod i gytundeb gyda darparwr allanol newydd ar gyfer darparu Gwasanaethau Milfeddygol, sy'n arbenigwyr yn y maes. Fel rhan o'r cytundeb hwn mae gan y sefydliad bellach Filfeddyg Enwebedig newydd, sef un o'r rolau a enwir yn gyfreithiol o dan ASPA. Mantais y trefniant hwn yw cael cronfa o arbenigwyr wrth law pan fo angen.

15.4. Yn ogystal ag ystyried ystod o feysydd a nodwyd drwy'r adolygiad Gonestrwydd Ymchwil mewnol y cyfeirir ato yn Adran 7.1 a'r Cynllun

Gweithredu dilynol, mae'r Brifysgol hefyd wedi cymeradwyo'n ffurfiol (trwy ei Phwyllgor Safonau Biolegol a'r Paneli Lles Anifeiliaid ac Ymchwil) ganllawiau **PREPARE** (C
ynllunio **Gweithdrefnau Ymchwil ac Arbrofol ar Anifeiliaid: Argymhellion ar gyfer Rhagoriaeth**).

16. Diwylliant yr Ymchwil

16.1. Mae'r Brifysgol wedi parhau i ddatblygu ei hamcanion diwylliant ymchwil, gyda chymorth dau aelod ychwanegol o staff sy'n darparu cefnogaeth benodol i ddatblygu diwylliant ymchwil ac sydd wedi bod yn eu swyddi ers Ionawr 2023. Mae rhai uchafbwyntiau penodol yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023 yn cynnwys:

- Cwblhau ein harolwg diwylliant ymchwil sefydliadol tair blynedd cyntaf sefydlu meincnodau ar gyfer monitro hydredol. Cafwyd cyfanswm o 1,312 o ymatebion i'r arolwg, gan gynnwys 36% o'r holl staff ar gontractau Addysgu ac Ymchwil. Mae'r canlyniadau sy'n ymwneud â Gonestrwydd Ymchwil a moeseg yn gadarnhaol drwyddi draw. Yn benodol, mae 80% o'r ymatebwyr yn cytuno bod Prifysgol Caerdydd yn cymryd Gonestrwydd Ymchwil o ddifrif, ac mae 91% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn gwybod beth sy'n cael ei ystyried yn arfer ymchwil annerbyniol a 'chamymddygiad ymchwil'. Ar ben hynny, mae 86% o'r ymatebwyr yn teimlo'n hyderus eu bod yn gwybod sut i fodloni gofynion moesegol eu hymchwil, gyda 48% o'r rheiny yn cytuno'n gryf â'r teimlad hwn. Mae dadansoddiad pellach o ddata ansoddol ychwanegol o'r arolwg ar y gweill ac mae'n debygol o amlygu rhai heriau a rhwystrau sy'n ymwneud â Gonestrwydd Ymchwil a meysydd eraill. Bydd ein Grŵp Datblygu Diwylliant Ymchwil yn cytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain fis Ionawr 2024 yn dilyn ymgynghoriad, fel rhan o ailddatblygiad cyffredinol o gynllun gweithredu'r sefydliad i ystyried canfyddiadau arolygon ar draws pob agwedd ar ddiwylliant ymchwil. Bydd yr ailddatblygiad hwn yn ystyried cynigion a gafodd eu gohirio dros dro hyd nes y cwblheir yr arolwg, megis gweithredu gwiriadau iechyd DORA mewn ysgolion.
- Cynhyrchu a lledaenu canllawiau newydd ar gyfer dilyniant gyrfa staff ymchwil, trwy'r prosesau ailraddio, a galluogi ymchwilwyr a enwir i gael eu cysylltu â chynigion cynnig ar radd uwch, ar ôl cwblhau proses asesu rôl sefydledig cyn cyflwyno cynnig.
- Cais llwyddiannus i Ymddiriedolaeth Wellcome am gyllid i ddylunio cyfres o raglenni datblygu staff ar gyfer Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar academaidd yn ogystal â Gwasanaethau Proffesiynol a staff technegol/arbenigol. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar eiriolaeth ar gyfer gweithgaredd ymchwil sy'n cefnogi diwylliant ymchwil cadarnhaol, a'i ddatblygu. Mae diwylliant ymchwil cadarnhaol yn un a ddiffiniwyd gennym fel un sy'n cael ei arwain gan werthoedd ac sy'n cwmpasu dimensiynau Gonestrwydd Ymchwil ond hefyd, er enghraifft: cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; sicrwydd swydd a datblygu gyrfa; lles; ymchwil agored; a chydweithio a cholegoldeb.
- Cwblhau'r cynllun peilot [CRediT](#) (Tacsonomeg Rolau Cyfranwyr)⁴ mewn tair Ysgol, gan geisio galluogi mwy o dryloywder a chydabyddiaeth o gyfraniadau amrywiol ymchwilwyr Caerdydd i

⁴ Mae CRediT yn disgrifio 14 rôl sy'n cynrychioli'r gwaith a wna cyfranwyr fel arfer tuag at allbwn ysgolheigaidd

allbynnau ysgolheigaidd. Mae un o'r ysgolion hyn yn datblygu eu defnydd o CRediT ymhellach. Cafwyd nifer o bwyntiau dysgu o'r cynllun peilot ac mae wedi amlygu mai un rhwystr allweddol yw'r canfyddiad y bydd defnyddio'r cynllun yn cymryd mwy o amser nag arferion awduriaeth traddodiadol. Rydym yn ymchwilio i ffyrdd y gallwn hyrwyddo ymhellach amlygrwydd a gwerth y cynllun yn ogystal â realiti ei weithredu, gan gynnwys drwy hyrwyddo astudiaeth achos fewnol. Rydym hefyd yn ystyried dichonoldeb monitro'r defnydd o CRediT trwy ein cadwra sefydliadol, ORCA.

16.2. Mae adolygiad o'n proses dyrchafiad academaidd hefyd ar y gweill gyda'r bwriad o wreiddio ac amlygu cyfraniadau at ddiwylliant ymchwil cadarnhaol, gan gynnwys ym meysydd Gonestrwydd Ymchwil, Ymchwil Agored ac asesu ymchwil cyfrifol a sicrhau bod gweithgaredd o'r fath yn cael ei gydnabod a'i wobrwyo. Rhagwelir y bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Dyrchafiadau Academaidd y Brifysgol yn ystod Hydref 2023.

17. Ymchwil Agored a Thryloywder

17.1. Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r agenda Ymchwil Agored ac mae ein Grŵp Gweithredol Ymchwil Agored ('OROG') wedi parhau i gyfarfod yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023 ac mae'n archwilio ffyrdd y gellir cefnogi'r gymuned ymchwil yn well yn y maes hwn.

17.2. Rydym yn sefydliad partner ac yn darparu mewnbwn ac arweinyddiaeth i'r Gweithgor Asesu Ymchwilwyr Agored a Chyfrifol, sy'n rhan o [Raglen Ymchwil Agored](#) UKRN . Yn benodol, mae Prifysgol Caerdydd yn arwain gwaith i ddatblygu cymuned ymarfer ar draws y sector AU, yn ogystal ag olrhain cynnydd sefydliadau astudiaeth achos dethol.

17.3. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, buom yn cymryd rhan mewn cynllun peilot GW4 o gynllun "hyfforddi'r hyfforddwr" UKRN, gyda'r nod o ddatblygu arbenigedd mewnol mewn hyfforddi pobl ar arferion Ymchwil Agored. Fel rhan o'r cynllun hwn, mynychodd 4 aelod o'n staff sesiynau "hyfforddi'r hyfforddwr" a gynhaliwyd gan UKRN a GW4 ym mis Mawrth ac Ebrill 2023, ac yna datblygwyd deunydd hyfforddi penodol i'r broses ac ymarfer ym Mhrifysgol Caerdydd. Ym mis Gorffennaf 2023, cynhaliwyd dwy sesiwn beilot ar 'Ymchwil Agored a Mynediad Agored', ac 'Ymchwil Agored a Rhannu Data a Chod' ar gyfer ymchwilwyr sy'n seiliedig ar [sbarc/spark](#). Roedd y sesiynau hyn yn rhoi cyflwyniad i Ymchwil Agored, ac yn galluogi cyfranogwyr i:

- Nodi arferion sy'n gysylltiedig â Gwyddoniaeth Agored ac ymchwil 'FAIR';
- Disgrifio manteision cyhoeddi Mynediad Agored;
- Deall y gwahaniaethau rhwng llwybrau Mynediad Agored;
- Nodi manau priodol ar gyfer anghenion;
- Deall rhesymau, manteision a risgiau rhannu data;
- Esbonio pwysigrwydd cynlluniau rheoli data;
- Diffinio beth yw data sensitif o fewn eu maes;
- Dewis opsiynau storio a rhannu priodol;
- Deall a gwerthuso manteision a heriau rhannu cod;

- Cymhwyso arfer da wrth ddatblygu cod ar gyfer rhannu; a
- Deall llwybrau posibl i rannu cod.

Mae cynlluniau i gynnal sesiynau pellach yn ystod y Flwyddyn Academaidd nesaf, gan gynnwys yn symposiwm blynyddol Cymdeithas Staff Ymchwil Prifysgol Caerdydd ym mis Tachwedd 2023 (i gyd-fynd ag Wythnos Ymchwil Agored GW4), ac i ganolfan WISERD y Brifysgol (Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Cymru a Data) ym mis Ionawr 2024.

17.4. Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Brifysgol hefyd wedi ymgymryd ag ystod o weithgareddau gyda'r nod o gryfhau Ymchwil Agored a'r gefnogaeth a ddarperir i'r gymuned ymchwil. Er enghraifft:

- Mae cynllun peilot cadw hawliau wedi dechrau i gefnogi academyddion i gadw hawliau dros eu hallbynnau wrth gyhoeddi mewn cyfnodolion ysgolheigaidd.
- Rydym wedi cymryd tanysgrifiad ar gyfer Cabells Predatory Journal Reports i gefnogi academyddion i adnabod ac osgoi cyfnodolion rheibus.
- Rydym wedi cynnal adolygiad o gyfraddau cydymffurfio cyhoeddiadau mynediad agored yn dilyn REF, gan nodi bod cyfraddau cydymffurfio wedi gostwng. Cychwynnwyd prosiect i adolygu'r rhesymau am hyn, i fynd i'r afael â'r bylchau ac yn y pen draw i gynyddu nifer y cyhoeddiadau Mynediad Agored ar draws y Brifysgol. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau, a gwnaeth y prosiect argymhellion ar gyfer hyfforddiant pellach i staff ac ymwybyddiaeth o fanteision a gofynion mynediad agored y tu hwnt i REF. Mae cydymffurfiaeth Mynediad Agored ar hyn o bryd ar draws y Brifysgol yn 92% ar gyfer allbynnau a dderbyniwyd o 01 Tachwedd 2022 ac a adneuwyd yn ein cadwrfa ers 01 Ionawr 2023.
- Mae canllawiau ar gyhoeddi monograffau mynediad agored hefyd yn cael eu datblygu ac mae adolygiad strategol o'n Gwasg Prifysgol Caerdydd mynediad agored ar y gweill, a disgwylir argymhellion yn ystod Hydref 2023.

17.5. Cyn ystyried penodi 'Arweinwyr Gonestrwydd Ymchwil Agored' (i gymryd lle ein 'Arweinwyr Gonestrwydd Ymchwil' o bosibl) neu'u cyfwerth, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu adnoddau a chyfeirio sy'n berthnasol i ymgysylltiad ymchwilwyr â'r agenda hon. Bydd hyn yn helpu i wella amlygrwydd a dealltwriaeth o ddisgwyliadau ymchwil agored. Mae OROG yn casglu adnoddau mewnol ac allanol sy'n ymwneud ag ymchwil agored ac mae'n bwriadu datblygu allbwn byr a hygyrch sy'n cyfeirio'r adnoddau hyn at staff ac a fydd yn helpu i wella ymwybyddiaeth o'r cymorth ymchwil agored sydd ar gael.

18. Ymchwil Ddibynadwy

18.1. Mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r agenda "Ymchwil Ddibynadwy" ac mae wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau yn y maes hwn yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, gan gynnwys:

- Dod yn aelod gweithgar o Grŵp Llywio Fforwm Ymchwil Ddibynadwy Grŵp Russell, gan arwain agenda'r Fforwm. Mae'r Fforwm yn gyfle allweddol i gydweithio a dysgu oddi wrth gydweithwyr Grŵp Russell.

- Ymgysylltiad parhaus â chydweithwyr, y [Gymdeithas Rheoli Allforion Addysg Uwch](#) ('HEECA') a'r [Tîm Cyngori ar Ymchwil ar y Cyd](#) ('RCAT') i drafod syniadau a rhannu'r arferion gorau Mae'r Brifysgol hefyd wedi rhyngweithio ag RCAT ar brosiectau penodol ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag RCAT i drafod egwyddorion ac arferion Ymchwil Dibynadwy.
- Gwaith parhaus i godi ymwybyddiaeth a/neu hyfforddi gyda nifer o bwyllgorau a grwpiau mewnol allweddol gan gynnwys ORIEC, Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, y Grŵp Strategaethau Rhyngwladol, Bwrdd y Gwasanaethau Proffesiynol ac ymchwilwyr yn yr Ysgol Peirianeg.
- Adolygu cynnwys mewnwyd y Brifysgol ar Reolaethau Allforio ac Ymchwil Ddibynadwy (yn aros i gael ei gyhoeddi).
- Cyflwyno nifer o offer i sicrhau bod ymholiadau Rheoli Allforio ac Ymchwil yn cael eu cofnodi'n gyson. Mae'r offer hyn yn cynnwys Ffurflen Ymholiad Rheoli Allforio, offeryn Asesu Gwiriwr Nwyddau a chrynodeb o Asesiad Ymchwil Ddibynadwy.
- Integreiddio ystyriaethau Ymchwil Ddibynadwy i broses Diwydrwydd Dyladwy'r Brifysgol ar gyfer ymchwil.

18.2. Mae swydd 'Swyddog Gonestrwydd Ymchwil a Chydymffurfiaeth' hefyd wedi'i chreu a phenodwyd ymgeisydd yn llwyddiannus i ddechrau fis Rhagfyr 2023. Bydd hyn yn galluogi datblygiad strwythurau a systemau llywodraethu'r Brifysgol ynghylch Ymchwil Ddibynadwy a rhyngwladoli, gan gynnwys datblygu Polisi'r Brifysgol ar Reoli Allforion.

19. Rheoli data

19.1. Ochr yn ochr â gweithgarwch busnes fel arfer i gefnogi arfer da ym maes rheoli data ymchwil, gan gynnwys darparu cyngor, hyfforddiant a chymorth, bu nifer o weithgareddau penodol i gefnogi ein cymuned ymchwil ymhellach a/neu well llywodraethu yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023. Er enghraifft:

- Ailgyflwynwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn Diogelu Data a Rheoli Cofnodion ar gyfer staff a myfyrwyr, ochr yn ochr â rhai sesiynau ar-lein.
- Ychwanegwyd at ganllawiau mewnwyd ar gyfer y gymuned ymchwil ac mae ymchwilwyr yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau cyngori gan Cydymffurfiaeth a Risg, Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Brifysgol a Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi.
- Ym mis Mehefin 2023, cyflwynodd cydweithwyr o RIGE, Cydymffurfiaeth a Risg a'r Gwasanaeth Llyfrgell 'Gweithdy Diogelu Data a Rheoli Cofnodion' a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer Aelodau SREC. Roedd hyn yn dilyn galwad am hyfforddiant a chymorth ychwanegol gan rai aelodau o gymuned SREC a rhai heriau cyffredin a nodwyd yn y maes hwn o ymarfer adrodd blynyddol SREC. Recordiwyd y gweithdy ar gyfer aelodau nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.
- Ymgorfforwyd cyngor rheoli data ymchwil a diogelu data yn SOP drafft y Brifysgol ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys recordiadau sain a/neu weledol o gyfranogwyr ymchwil dynol (cyfeirir ato yn Adran 11).
- Cwblhawyd y broses gaffael ar gyfer system cadw data ymchwil newydd yn llwyddiannus, a dyfarnwyd y contract i Digital Science ar gyfer eu cynnyrch Figshare for Institutions. Mae gweithredu wedi

dechrau, gyda'r nod o lansio gwasanaeth Cadwrfa Data Ymchwil newydd y Brifysgol yn gynnar yn 2024.

- Mae contract gwasanaeth storio oddi ar y safle newydd wedi cael ei gaffael, a chytunwyd ar drefniadau ymadael gyda'r cyflenwr presennol.
- Rhoddwyd canllawiau wedi'u diweddarau i'r tîm Contractau Ymchwil ar gyfer trosglwyddo data personol rhyngwladol/cyfyngedig yn seiliedig ar ofynion newydd a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cytunwyd ar ddull gweithredu priodol mewn perthynas â dogfennau contract atodol, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

20. Ymgysylltu allanol a rhannu'r arferion gorau

20.1. Mae'r Brifysgol wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau allanol i rannu arfer gorau, archwilio trefniadau llywodraethu effeithiol a mentrau ar gyfer hyrwyddo Gonestrwydd Ymchwil ac i ddylanwadu ar y cyd ar bolisi ac arfer. Yn benodol, mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn aelod gweithgar o UKRIO a Fforwm Gonestrwydd Ymchwil Grŵp Russell, yn ogystal â grwpiau pwnc-benodol fel Fforwm Ymchwil Ddibynadwy Grŵp Russell, UKRN, HEECA a Chymdeithas Noddwyr y Brifysgol.

20.2. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, mae cynrychiolwyr RIGE hefyd wedi cyflwyno mewn amrywiol gynadleddau a digwyddiadau yn ymwneud â Gonestrwydd Ymchwil a/neu Ddiwylliant Ymchwil gan gynnwys y [Fforwm Diwylliant ac Ymarfer Ymchwil](#) ym mis Mehefin 2023. Gwahoddwyd Deon Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil y Brifysgol hefyd i gynnal sesiwn gyda Phrifysgol Newcastle yn y Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiwylliant Ymchwil yn Warwick (Medi 2023) ar "*Sut i wneud arolwg diwylliant ymchwil*". Mae cynlluniau hefyd i ledaenu methodoleg, deunyddiau, canlyniadau a gwerthusiadau o'n rhaglen diwylliant ymchwil a ariennir gan Ymddiriedolaeth Wellcome gyda Phrifysgolion eraill Cymru.

20.3. Mae Prifysgol Caerdydd hefyd wedi cefnogi swyddogion CCAUC i ddatblygu cynnig ar gyfer rhwydweithiau Diwylliant Ymchwil Cymru gyfan, i'w ystyried gan fwrdd CCAUC. Byddai rhwydweithiau o'r fath yn hwyluso cydweithio rhwng arweinwyr diwylliant ymchwil sefydliadol a chydweithwyr gwasanaethau proffesiynol sy'n gweithio ar faterion sy'n ymwneud â diwylliant ymchwil (e.e. gonestrwydd ymchwil a moeseg) a byddent yn cryfhau perthnasoedd.

Gweithgareddau yn yr arfaeth

21. Ochr yn ochr â'r gweithgareddau amrywiol y cyfeiriwyd atynt eisoes yn y Datganiad Blynyddol hwn fel rhai sy'n dechrau neu'n dod i ben yn ystod y Flwyddyn Academaidd nesaf, bydd ein ffocws a'n sylw Gonestrwydd Ymchwil yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024 yn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â'r camau gweithredu sydd yn ein Cynllun Gweithredu ar Onestrwydd Ymchwil ac yn arbennig datblygu'r meysydd gwaith a ganlyn:

- Moeseg Ymchwil – cefnogi cynllun peilot ein sianeli adolygu moesegol newydd ar gyfer gweithgarwch israddedigion a myfyrwyr ôl-raddedig, archwilio datrysiad ar-lein ar gyfer gweithgarwch adolygu moesegol, a

chefnogi gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Moeseg a Data sydd ar Gael yn Gyhoeddus.

- Gwelededd, gwobr a chydabyddiaeth – ceisio sicrhau bod dangos rhagoriaeth wrth gefnogi a/neu ymgorffori Gonestrwydd Ymchwil yn cael ei adlewyrchu'n well yn systemau gwobrwyo a chydabod y Brifysgol.
- Ymchwil Ddibynadwy - datblygu ymhellach systemau ac offer y Brifysgol i gefnogi ymchwilwyr ac i helpu i sicrhau arfer cyfrifol yn y maes hwn.

Ymdrin â honiadau o Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil

22. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod ei phrosesau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddygiad ymchwil yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn, yn deg ac yn briodol i anghenion y Brifysgol.

Honiadau yn erbyn staff Prifysgol Caerdydd

23. Mae'r Brifysgol yn cymryd pob honiad o Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil Academaidd o ddifrif ac mae ganddi weithdrefn benodol i ymdrin â honiadau o'r fath. Mae Polisi a Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd y Brifysgol ('Y Weithdrefn ARM'), ynghyd â swyddog penodol a enwir, ar gael i'r cyhoedd ar [wefan](#) y Brifysgol.
24. Mae gan y weithdrefn ARM dri cham. Ym mhob cam, mae'n bosibl y caiff y cyhuddiadau eu gollwng neu eu dwyn ymlaen i'r cam nesaf:
 - 24.1. Cam Rhagarweiniol lle mae'r Person a Enwir, mewn ymgynghoriad â'r Rhag Is-ganghellor ac a gyflawnir fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn honiad (yn dibynnu ar gymhlethdod), yn cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r honiad. Er mwyn dod i benderfyniad, caiff yr Unigolyn a Enwir geisio cyngor arbenigwr mewnol ynghylch difrifoldeb a hygyrdd y pryderon.
 - 24.2. Cam Sgrinio pan fydd Panel o hyd at dri aelod o staff mewnol sy'n meddu ar arbenigedd perthnasol a statws academaidd, a hynny fel arfer cyn pen 30 diwrnod gwaith, yn cynnal gwerthusiad cychwynnol o'r holl ddeunydd perthnasol sy'n ymwneud â chyhuddiad yr Achwynydd a'r Atebydd, gan ofyn am ragor o eglurhad os bydd angen. Bydd y Panel Sgrinio yn paratoi adroddiad ysgrifenedig a chyfrinachol o'i werthusiad a'i benderfyniad, ac yn ei anfon at yr Unigolyn a Enwir.
 - 24.3. Cynhelir Cam Ymchwiliad Ffurfiol pan sefydlir panel a fydd yn cynnwys Cadeirydd annibynnol a diduedd yn ogystal â dau aelod diduedd sy'n meddu ar yr arbenigedd a'r statws priodol. Dylai'r Cadeirydd ac o leiaf un o'r ddau aelod fod o'r tu allan i'r Brifysgol, ac ni ddylent fod yn weithwyr y Brifysgol nac yn gweithio o dan gontract i'r Brifysgol. Ni ddylai'r aelod mewnol fod yn aelod o staff yn yr un Ysgol â'r Atebydd.
25. Fel y nodir yn Adran 12, diwygiwyd y Weithdrefn ARM yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023 ac mae fersiwn wedi'i diweddarau (v04) ar gael ar dudalen we "[Camymddygiad Ymchwil Academaidd](#)" y Brifysgol.

Honiadau yn erbyn myfyrwyr

26. Mae'r Brifysgol yn cymryd pob honiad o gamymddwyn gan fyfyrwyr yn ystod ymchwil, neu'n gysylltiedig â hi, o ddifrif ac mae ganddi ystod o bolisiau a gweithdrefnau i ymdrin â honiadau o'r fath. Bydd yr union bolisi a gweithdrefn i'w defnyddio yn dibynnu ar natur yr honiad/ymddygiad honedig a lefel y rhaglen y mae'r myfyriwr wedi ymrestru arni. Y polisi mwyaf perthnasol mewn perthynas â chamymddwyn gan fyfyrwyr yn y cyd-destun penodol hwn yw Polisi Gonestrwydd Academaidd y Brifysgol a'r Gweithdrefnau cysylltiedig o ran Camymddwyn Academaidd. Mae pob un o'r rhain yn rhan o Reoliadau Academaidd y Brifysgol sydd ar gael i'r cyhoedd ar [wefan](#) y Brifysgol.
27. Mae Polisi Gonestrwydd Academaidd y Brifysgol yn nodi egwyddorion cyffredinol yr hyn a olygir gan Gamymddwyn Academaidd ym Mhrifysgol Caerdydd, gan gynnwys diffiniad o 'Camymddwyn Academaidd mewn Ymchwil' sy'n cyd-fynd â'r categorïau camymddwyn sydd yn y Concordat. Mae'r polisi'n cadarnhau y bydd Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd berthnasol yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw fyfyriwr yr honnir iddo gymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath. Y gweithdrefnau perthnasol y cyfeirir atynt yw Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd (Graddau Ymchwil) y Brifysgol a Gweithdrefn Camymddwyn Academaidd y Brifysgol (Myfyrwyr a Addysgir).
28. Mae gan Weithdrefnau Camymddwyn Academaidd y Brifysgol broses deg a chlir sy'n ystyried ac yn ymchwilio i bryderon ynghylch camymddwyn academaidd. Mewn perthynas â'r Weithdrefn Camymddwyn Academaidd (Graddau Ymchwil) yn benodol, mae gan y weithdrefn dri cham, sef:
 - 28.1. Cam 1 (Adolygiad Rhagarweiniol) - bydd y Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu Gadeirydd y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd (neu'r enwebai priodol), fel y bo'n berthnasol, yn cynnal adolygiad cychwynnol o'r pryderon. Gan ddibynnu ar pryd y codwyd y pryderon, mae'n bosibl mai canlyniad yr Adolygiad Rhagarweiniol fydd gwrthodi'r pryderon, cymryd camau adferol neu gyfeirio'r pryderon at ymchwiliad Cam 2.
 - 28.2. Cam 2 (Ymchwiliad Ffurfiol) - bydd Pennaeth yr Ysgol yn penodi un o uwch-aelodau staff academaidd yr ysgol i fod yn Swyddog Ymchwilio ac ystyried y pryderon, cwrdd â'r partïon perthnasol a llunio adroddiad. Bydd Pennaeth yr Ysgol yn ystyried yr adroddiad a'r holl dystiolaeth sydd ar gael ac yn penderfynu, ar sail tebygolrwydd, a gafwyd Camymddwyn Academaidd. Caiff Pennaeth yr Ysgol wrthod y pryderon os nad oes sail iddynt neu os nad oes digon o dystiolaeth bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, neu caiff benderfynu, ar sail tebygolrwydd, fod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd. Os penderfynir bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, caiff Pennaeth yr Ysgol gyfeirio'r achos at Banel Gonestrwydd Academaidd Cam 3 neu caiff benderfynu, oherwydd lefel y difrifoldeb a/neu amgylchiadau perthnasol eraill, nad yw'r achos yn cyfiawnhau cael ei gyfeirio at Gam 3 ac y gellir cymryd camau adferol penodol yn lle hynny.
 - 28.3. Cam 3 (Panel Gonestrwydd Academaidd) - caiff Panel Gonestrwydd Academaidd ei gynnull, sy'n cynnwys 3 aelod staff academaidd o'r tu allan i'r Ysgol, i ystyried yr achos. Gall y panel wrthod y pryderon neu benderfynu, ar sail tebygolrwydd, fod Camymddwyn Academaidd wedi

digwydd. Os yw'r panel yn penderfynu bod Camymddwyn Academaidd wedi digwydd, caiff osod un gyfres neu ragor o gamau gweithredu a sancsiynau rhestredig sy'n cynnwys, er enghraifft, ymddiheuriad ysgrifenedig, addasu traethawd ymchwil a cheryddon ffurfiol eraill gan gynnwys gwaharddiad o'r Brifysgol.

29. Mae gan y Brifysgol Dîm Achosion Myfyrwyr canolog sydd â'r rôl ganlynol mewn perthynas ag achosion o Gamymddwyn Academaidd:

29.1. Cynghori Ysgolion ar y camau sydd eu hangen yn unol â'r gweithdrefnau;

29.2. Cynnull panel, a chefnogi proses y panel (os penderfynwyd yn ystod yr ymchwiliad cynharach bod angen panel); a

29.3. Chofnodi canlyniad ymchwiliad, beth bynnag fo'r canlyniad (gan gynnwys gwrthod y pryderon).

Datganiad ar ymchwiliadau i Gamymddygiad Ymchwil

30. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, cafwyd pedwar (4) cyhuddiad/cyfres o gyhuddiadau yn unol â gweithdrefn ARM y Brifysgol (ARM 22.01, ARM 22.02 ac ARM 22.03, ARM 22.04). Dyma oedd y penderfyniadau yn yr achosion hyn:

30.1. ARM 22.01 - gwrthodwyd yn y cam Adolygiad Rhagarweiniol oherwydd daeth adolygiad o'r wybodaeth a ddarparwyd i'r casgliad nad oedd y mater hwn yn dod o dan Weithdrefn ARM y Brifysgol gan ei fod yn ymwneud ag academydd yn gweithredu yn ei rôl fel golygydd cyfnodolyn. Argymhellwyd dull arall o weithredu (i godi pryderon trwy weithdrefnau'r cyfnodolyn) i'r unigolyn.

30.2. ARM 22.02 - roedd y materion a godwyd yn ymwneud ag ymchwiliad blaenorol a gynhaliwyd yn 2020/2021. Gofynnwyd i'r achwynydd egluro a oedd y gŵyn yr un fath â'r un yr ymchwiliwyd iddi o'r blaen (yn ymwneud â'r un materion), neu a oedd y gŵyn yn ymwneud ag unrhyw faterion newydd (oedd yn honiad newydd). Os oedd y gŵyn yn un newydd, gofynnwyd i'r achwynydd ddarparu manylion am hyn er mwyn galluogi'r Brifysgol i gynnal adolygiad rhagarweiniol. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd gan yr achwynydd ac, yn wyneb hyn, ni chymerwyd camau pellach gan yr ymchwiliwyd i'r materion a godwyd eisoes yn 2020/2021.

30.3. ARM 22.03 – Cynhaliwyd adolygiad rhagarweiniol i nodi a oedd angen ymchwiliad ARM ar fater a godwyd o dan weithdrefn ymchwilio amgen. Daethpwyd i'r casgliad bod y mater a godwyd yn enghraifft o arfer ymchwil gwael neu "amheus" ac nad oedd yn dod o dan y categorïau perthnasol o ARM.

30.4. ARM 22.04 - Wedi adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd, canfuwyd bod yr honiad hwn yn erbyn y cyfnodolyn cyhoeddi ac awdur Prif Ymchwilydd/Gohebiaeth mewn sefydliad arall. Cynghorwyd yr achwynydd i godi hyn gyda'r Brifysgol berthnasol.

31. Yn ogystal â'r uchod, gofynnwyd i Dîm Cydymffurfiaeth a Risg y Brifysgol a'r Gwasanaethau Cyfreithiol gynorthwyo staff academiaidd gyda nifer o faterion yn ymwneud â chyfnodolion rheibus yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023. Mae'r timau hyn wedi ceisio cynghori a chefnogi staff perthnasol lle bo modd ac wedi ychwanegu canllawiau penodol yn ymwneud â chyfnodolion rheibus at ein Gweithdrefn ARM o ganlyniad.
32. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, nid oedd unrhyw (0) adroddiad o Gamymddwyn Academaidd honedig mewn Ymchwil gan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.
33. Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023, nid oedd unrhyw (0) ymchwiliadau i Gamymddwyn Academaidd mewn Ymchwil yn ymwneud â myfyrwyr israddedig/PGT a gyrhaeddodd Banel Gonestrwydd Academaidd.

Beth mae'r Brifysgol wedi'i ddysgu yn sgil yr ymchwiliadau?

34. Dysgwyd y gwersi canlynol yn sgil yr ymchwiliadau ARM a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn Academaidd 2022/2023:
- 34.1. Ei bod yn bwysig nodi'r weithdrefn ymchwilio gywir i'w dilyn pan fydd materion yn codi gan na ddylid defnyddio prosesau i ail-godi materion yr ymchwiliwyd iddynt eisoes gan bolisi neu sefydliad arall os nad yw'n briodol gwneud hynny. Felly mae cwmpas y Weithdrefn ARM wedi'i amlinellu'n glir yn yr adolygiad ynghyd â thabl o bolisiau a chysylltiadau perthnasol eraill. Fodd bynnag, mae'r Weithdrefn ARM hefyd yn manylu ar y weithdrefn os oes mwy nag un mater yn cael ei godi (e.e. cwyn ac ARM) oherwydd ei fod yn bosibl y bydd angen ystyried elfennau o ymchwiliadau ar wahân ochr yn ochr â'i gilydd.
- 34.2. Bod academyddion yn profi cyswllt cynyddol a/neu ymddygiad amhriodol o gyfnodolion 'rheibus' ac mae gan y Brifysgol rôl bwysig i'w chwarae wrth godi ymwybyddiaeth o arferion cyfnodolion rheibus.

Creu ac ymgorffori diwylliant ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus eu bod yn gallu rhoi gwybod am achosion o gamymddwyn

35. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i feithrin diwylliant lle mae pob un o'i staff a'i myfyrwyr yn gallu rhoi gwybod am gamymddwyn a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi drwy'r broses hon. Mae gan y Brifysgol sawl mecanwaith at ddibenion hyn gan gynnwys:
- Y cyngor a'r cymorth sydd ar gael gan dimau/cysylltiadau canolog y Brifysgol ar ystod o bynciau a themâu gan gynnwys Gonestrwydd ymchwil, moeseg ymchwil, diwylliant ymchwil, asesu ymchwil gyfrifol a chwythu'r chwiban.
 - Enw cyswllt penodol a enwir ar gyfer honiadau ARM.
 - Rhwydwaith o Arweinwyr Gonestrwydd Ymchwil yr Ysgolion a Swyddogion Moeseg (yr enwau cyswllt lleol).
 - Hyfforddiant Gonestrwydd Ymchwil y Brifysgol sy'n ymwneud â chynnwys pwrpasol ar roi gwybod am gamymddygiad ymchwil ac sy'n cyfeirio staff at gefnogaeth fewnol a'r UKRIO sy'n rhoi cyngor allanol ac annibynnol.

- Cyflwyno sesiynau penodol i Ysgolion am Gonestrwydd Ymchwil a/neu hyfforddiant ar gamymddygiad ymchwil pan fo angen neu pan ofynnir am hyn.

36. Bydd y Brifysgol yn parhau i adolygu a monitro ei hymagwedd yn y maes hwn ac yn ymateb i unrhyw adborth a dderbynnir trwy'r amrywiol sianeli a nodir uchod. Rhagwelir y bydd gwaith a mentrau'r Brifysgol yn ymwneud â diwylliant ymchwil hefyd yn helpu i sicrhau adlewyrchiad priodol yn y maes hwn.

Paratoi'r Datganiad Blynyddol hwn

37. Cydlynwyd y gwaith o baratoi'r Datganiad Blynyddol hwn gan y Tîm Gonestrwydd, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil (RIGE). Nodwyd drafft o'r datganiad hwn gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ar 10 Hydref 2023 ac fe'i cymeradwywyd gan ORIEC ar 17 Hydref 2023, yn amodol ar rai mân gywiriadau.
38. Cymeradwywyd y Datganiad Blynyddol hefyd gan Bwyllgor Llywodraethu'r Brifysgol ar 07 Tachwedd 2023 ac fe'i nodwyd gan y Senedd a'r Cyngor ar 08 Tachwedd 2023 a 22 Tachwedd 2023 yn y drefn honno.

Cwestiynau ar y Datganiad Blynyddol hwn

39. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Datganiad Blynyddol hwn at Swyddog Gonestrwydd a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol (cullene1@caerdydd.ac.uk) neu'r tîm Gonestrwydd, Llywodraethu a Moeseg Ymchwil (resgov@caerdydd.ac.uk).

Yr Athro Roger Whitaker
Rhag Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter
Tachwedd 2023

Allwedd Talfyriadau

ARM	Camymddwyn o ran Ymchwil Academaidd
ASPA	Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986
CRediT	Tacsonomeg Rolau Cyfranwyr
DORA	Datganiad ar Asesu Ymchwil
GW4	4 Cymru a De-Orllewin Lloegr/Cynghrair y GW4
HEECA	Cymdeithas Rheoli Allforion Addysg Uwch
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
HTA	Deddf Meinweoedd Dynol 2004
JRGG	Grŵp Llywodraethu Ymchwil ar y Cyd
JRO	Swyddfa Ymchwil ar y Cyd
MRes	Meistr mewn Ymchwil
MPhil	Meistr mewn Athroniaeth
ORCA	Ymchwil Ar-lein@Caerdydd (ein storfa sefydliadol)
ORIEC	Y Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored
OROG	Y Grŵp Gweithredol ar Ymchwil Agored
PGT	Ôl-raddedig a Addysgir
PARATOI	Cynllunio Ymchwil a Gweithdrefnau Arbrofol ar Anifeiliaid@ Argymhellion er Rhagoriaeth.
PVC	Rhag Is-ganghellor
RCAT	Tîm Cyngor Ymchwil ar y Cyd
REF	Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil
RI	Gonestrwydd Ymchwil
RI CoP	Cod Ymarfer Gonestrwydd a Llywodraethu Gwaith Ymchwil
RIGE	Y Tîm Gonestrwydd Ymchwil, Llywodraethu a Moeseg
RTS	Gweddnewid Gwasanaethau
SOP	Gweithdrefn Weithredu Safonol
SREC	Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgolion
UEB	Bwrdd Gweithredol y Brifysgol
UG	Israddedig
UK CORI	Pwyllgor y DU ar Onestrwydd Ymchwil
UKRI	Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Gyfunol
UKRIO	Swyddfa Gonestrwydd Ymchwil y DU
UKRN	Rhwydwaith Atgynhyrchu'r DU
WISERD	Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru